**P-06-1268 Review the process for pre-assessed status for onshore turbines, which unfairly disadvantages individuals, Correspondence – Petitioner to Committee, 02.05.22**

Bore da

rwyf wedi cael trafferthion technegol bore yma, hyderaf y byddwch yn caniatau derbyn yr ebost isod ychydig yn hwyr oherwydd diffyg y wê.

Tystiolaeth i gydfynd â'r ddeiseb:

Rwyf wedi gwneud ymholiadau ac ymchwil helaeth yn ystod y misoedd diwethaf, oherwydd diffyg ymddiriedaeth ym mhrosesau Llywodraeth Cymru nid wyf am gyflwyno manylion oherwydd fe fyddaf yn eu defnyddio mewn fforymau eraill. Fodd bynnag nodaf y canlynol sydd yn atgyfnerthu sail y Ddeiseb:

- Canlyniad Cwyn Swyddogol i Ll C ac i'r Ombwdsmon yn cryfhau sail y Ddeiseb - honni fod datrysiad cyfreithiol sef Arolwg Barnwrol ar gael i herio Ll C - hyn yn amlygu nad oes mynediad cyfartal at ddatrysiad a barn cyfreithiol. Nid wyf mewn sefyllfa ariannol i ymgymeryd ag Arolwg Barnwrol.
- Tystiolaeth ysgrifenedig nad oes ymgynghori wedi bod gyda chynghorai cymuned na chynghorwyr sir wrth ddatblygu polisi Cymru'r Dyfodol 2040
- Er addewid i'w gyhoeddi yn fuan, nid yw'r Canllawiau i gydfynd a'r Polisi wedi ei gyhoeddi. Sut oes modd cyfiawnhau penderfyniadau i osod tyrbeini 250 metr o uchder o fewn 700 metr i'n cartref heb i'r canllawiau parthed pellter o gartrefi ayb gael ei gyhoeddi?

hapus iawn i ddarparu mwy o wybodaeth ar lafar neu yn ysgrifenedig

yn gywir